Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Chwarae Teg Abergele**

**17 Lon Kinmel**
**Pensarn**
**LL22 7SG**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Gwener, 16 Tachwedd 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Chwarae Teg, Abergele, wedi'i chofrestru i ofalu am chwe deg pedwar o blant dan 12 oed ar unrhyw un adeg. Mae'r feithrinfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 07.00 a 18.00, a hynny drwy gydol y flwyddyn ac eithrio gwyliau banc. Mae unigolion cyfrifol penodedig yn rheoli'r feithrinfa ar ran y cwmni cofrestredig, Barcallan Ltd, a Samantha Williams yw'r person â chyfrifoldeb am y gweithrediadau o ddydd i ddydd. Prif iaith y gwasanaeth yw Saesneg ac nid yw'n darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lleoedd wedi'u hariannu gan Dechrau'n Deg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant sy'n mynychu'r gwasanaeth yn hapus, wedi ymgartrefu yn y feithrinfa ac yn ymgysylltu â'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas. Maent yn gwneud dewisiadau cadarnhaol am sut y maent yn treulio'u hamser, ac maent yn derbyn gofal gan staff sydd yn ymwybodol o'u hanghenion unigol. Mae'r staff wedi'u cefnogi i gadw at bolisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth wrth weithio, ac maent yn eu gweithredu'n gadarnhaol er mwyn sicrhau diogelwch a lles y plant. Mae'r amgylchedd yn gyfforddus ac yn diwallu anghenion y plant yn dda. Mae'r arweinwyr yn rhagweithiol ac yn gwneud newidiadau yn ôl yr angen.

### 2. Gwelliannau

Mae'r arweinwyr wedi cymryd camau i fodloni'r hysbysiadau diffyg cydymffurfio a gyflwynwyd yn yr arolygiad diwethaf drwy wneud y canlynol;

- casglu'r wybodaeth ofynnol nad oedd wedi'i chynnwys yn ffeiliau'r staff;
- staff yn sicrhau bod yr ardal chwarae yn ddiogel cyn i'r plant fynd allan i chwarae;
- gwneud yn siŵr bod y rhieni'n llofnodi'r ffurflenni damweiniau a digwyddiadau;
- diweddaru'r polisi cwynion i gynnwys gwybodaeth am y broses i'w dilyn os yw rhieni'n dymuno gwneud cwyn neu os oes ganddynt bryder;
- cynllunio trefniadau'r clwb gwyliau i adlewyrchu oedrannau a diddordebau'r plant.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol o ran sicrhau bod cofnodion meddygol wedi'u cwblhau'n llawn bob amser. Ni welsom unrhyw dystiolaeth ar y diwrnod fod hyn yn effeithio ar y gofal a roddir i'r plant; felly rydym wedi tynnu sylw'r unigolyn cyfrifol at y mater hwn ac wedi dweud bod yn rhaid mynd i'r afael ag ef.

Gwnaethom argymhellion ynghylch cynllun yr ystafelloedd chwarae a gwaith cynllunio gweithgareddau, yn ogystal ag argymell bod yr arweinwyr yn cefnogi'r staff i fod yn hyderus yn eu cyfrifoldebau diogelu.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau cymryd rhan yn yr hyn sy'n digwydd o'u cwmpas. Maent yn gwybod y gwrandewir ar eu barn a'u bod yn dylanwadu ar y ffordd y maent yn treulio'u hamser. Mae'r plant yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt a chânt gyfleoedd i gwblhau tasgau eu hunain, ac maent yn gwneud hynny'n hyderus.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae gan y plant lais yn y gwasanaeth hwn.

Roedd y plant yn dylanwadu'n gadarnhaol ar sut roeddent yn treulio'u hamser. Gwrandawyd ar farn y plant – gwnaethant ofyn am gael adeiladu cuddfannau a chawsant eu hannog a'u cefnogi i wneud hynny. Gwnaethant fwynhau penderfynu pa adnoddau i'w defnyddio, gan hongian llieiniau ac adeiladu waliau allan o focsys. Wrth chwarae yn yr awyr agored, roedd y plant yn dewis a oeddent yn chwarae ar eu pen eu hunain neu gyda phlant eraill. Roeddent yn symud yn rhydd o un gweithgaredd i'r llall, er enghraifft, roedd rhai yn chwarae ar y llithren, ac yna gwnaethant benderfynu ymuno â'r staff wrth fwrdd yr ardd i gymryd rhan mewn gweithgaredd cyfrif.  Roedd y plant yn ymwybodol o'r opsiynau a oedd ar gael iddynt ac yn manteisio i'r eithaf arnynt.

Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau cadarnhaol am sut i dreulio'u hamser ac yn cyfrannu'n briodol at syniadau.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel.

Roedd y plant yn hapus ac yn fodlon cymryd rhan yn yr hyn a oedd yn digwydd. Roeddent yn brysur ac wedi'u difyrru ac roedd y rheini a oedd yn gofalu amdanynt yn gwybod pa weithgareddau roeddent yn eu mwynhau, er enghraifft, roedd y plant wedi'u difyrru gan adnoddau a gemau a ddewiswyd gan y staff yn unol â hoffterau'r plant.  Roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac yn elwa arni; gan ganu caneuon yn frwd a chael canmoliaeth am ddod o hyd i'r tegan a oedd yn cyfateb i'r gân. Byddent yn mynd at y staff pan oeddent wedi blino, ac yn cael eu cysuro ganddynt.  Roedd y plant yn meithrin ymdeimlad o berthyn, er enghraifft, dywedodd un plentyn ei fod yn mwynhau paentio ac felly gwnaeth y plentyn, ynghyd ag aelod o'r staff, gasglu'r adnoddau a pharatoi'r gweithgaredd. Roedd y plant yn cyrraedd yn hapus ac yn mynd ati ar unwaith i gymryd rhan yn yr hyn a oedd yn digwydd, gan eu bod wedi'u cefnogi'n dda.

Mae gan y plant berthynas gref â'r rheini o'u cwmpas sy'n eu galluogi i fwynhau eu profiadau dysgu a chwarae.

## 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r rheini o'u cwmpas.

Roedd y plant yn mwynhau bod gyda'u ffrindiau a'r staff. Daeth grŵp o blant at ei gilydd i edrych ar bryf cop bach. Roeddent wedi'u cyfareddu gan y pryf cop ac wedi ymgolli wrth ei wylio, ond roeddent yn deall teimladau ac emosiynau pobl eraill, gan barchu dymuniadau'r rheini nad oeddent am gyffwrdd â'r pryf cop. Pan oedd y plant allan yn yr ardd, roeddent yn rhedeg ac yn rhedeg ar ôl ei gilydd, a gwelsom lawer o wenu a chwerthin. Wrth i rai o'r plant hŷn fwynhau gêm o bêl-droed bwrdd, gwelsom gystadleurwydd cyfeillgar, â phawb yn cefnogi'i gilydd, a datblygodd y chwarae hwn wedyn yn gêm o bêl-droed yn yr ardd.

Mae'r plant yn dysgu i reoli eu hymddygiad yn gadarnhaol ac maent yn sensitif ac yn parchu ei gilydd.

## 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae ac yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig.

Roedd y plant yn uchel eu cymhelliant ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwarae rhydd a strwythuredig. Yng nghanol y cyfnodau mwy prysur, roedd cyfnodau mwy tawel; eisteddodd y plant gyda'r staff i chwarae gêm cyfrif. Gofynnodd y staff *'shall we play this one? Do you like this game'* gan ddangos eu bod yn adnabod hoffterau'r plant yn dda. Golygai hyn fod gan y plant ddewis a rheolaeth dros eu chwarae a'u dysgu. Roedd y plant yn ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn derbyn anogaeth reolaidd; cawsant eu llongyfarch am orffen y dasg dan sylw yn llwyddiannus, er enghraifft pan oeddent i gyd yn dod at ei gilydd ar gyfer amser cylch. Fodd bynnag, roedd yna achlysuron pan fyddai'r plant yn colli amynedd ac yn diflasu wrth orfod aros i'r staff ddarparu adnoddau gan eu bod wedi'u storio allan o gyrraedd y plant. Gellid gwella profiadau chwarae a dysgu'r plant drwy wneud yn siŵr bod adnoddau ar gael iddynt yn hawdd.

Ar y cyfan, mae'r plant yn mwynhau profiadau dysgu cadarnhaol sy'n eu cefnogi i ddysgu a thyfu.

## 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn hyderus ac yn annibynnol.

Roedd y plant yn elwa ar amrywiaeth o brofiadau a oedd yn eu galluogi i ennill amrywiaeth dda o sgiliau. Dangosodd y plant fentergarwch wrth gwblhau rhai tasgau eu hunain; roeddent yn ymateb yn dda pan ofynnwyd iddynt gadw adnoddau ac roeddent yn awyddus iawn i wneud hynny. Cafodd y plant lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau crefft, gyda llawer o enghreifftiau o'u cyflawniadau wedi'u nodi yn eu cofnodion datblygu. Roedd sgiliau hunangymorth wedi'u hyrwyddo'n gadarnhaol ond gellid gwneud mwy i'w hymestyn ymhellach. Roedd y plant yn awyddus i fod yn 'helpwr y dydd' a gwnaethant i gyd weiddi

'*yes*' pan ofynnwyd pwy oedd eisiau helpu. Aethant ati'n hyderus i ddosbarthu platiau a helpu i baratoi ar gyfer amser byrbryd. Sgwrsiodd y plant â'i gilydd yn ystod amser byrbryd, gan ddysgu a datblygu ymddygiadau sy'n dderbyniol yn gymdeithasol yn ystod prydau bwyd.

Mae'r plant yn meithrin sgiliau effeithiol er mwyn dod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae gan y staff ddealltwriaeth o sut i wella lles cyffredinol y plant a gwybodaeth gadarn o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac iach. Maent yn rheoli rhyngweithio mewn modd cadarnhaol ac yn ymdrechu i ddiwallu anghenion unigol drwy gynllunio gweithgareddau y bydd y plant yn eu mwynhau, ac maent yn annog y plant hŷn i benderfynu sut i dreulio'u hamser.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn gyfarwydd â'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd y staff yn sicrhau bod ystyriaeth dda yn cael ei rhoi i reoli heintiau drwy gefnogi'r plant i olchi eu dwylo a chadw at y gweithdrefnau newid cewynnau a argymhellir. Roedd cogydd penodol yn paratoi'r prydau i gyd ac yn gweithredu bwydlen gylchol a oedd ar gael i rieni ei gweld pe byddent yn dymuno. Rhoddwyd dewis o ffrwythau fel byrbryd, ynghyd â dewis o ddŵr neu laeth i'w yfed. Roedd y staff yn gwneud yn siŵr bod dŵr yfed ar gael i'r plant yn rheolaidd, ond roeddent yn caniatáu i'r plant yfed diodydd llawn siwgr os oedd eu rhieni wedi'u darparu. Roedd y staff yn cefnogi'r plant i fwynhau cyfleoedd rheolaidd i chwarae yn yr awyr iach; gwelsom y plant yn chwarae yn yr awyr agored yn yr ardd gefn fawr, ac yn ddiweddarach gwelsom y plant hŷn yn mwynhau chwarae yn yr ardd flaen. Roedd y staff yn defnyddio eu hyfforddiant cymorth cyntaf yn briodol, gan gadw cofnodion cyfredol o ddamweiniau a oedd wedi digwydd a pha gymorth cyntaf a roddwyd, a'r rheini wedi'u llofnodi. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion damweiniau a digwyddiadau, ac roedd pob un a welsom wedi'i gwblhau'n llawn. Nid oedd y cofnodion meddyginiaeth yn gyflawn. Trafodwyd hyn â'r unigolyn cyfrifol a rhaid ymdrin â hyn.

Mae'r staff yn cefnogi lles y plant mewn ffordd gymwys ac yn eu cadw'n ddiogel.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn mynegi disgwyliadau o ran ymddygiad yn glir i'r plant.

Roedd y staff yn darparu trefn a chysondeb, roedd ymddygiad cadarnhaol yn cael ei hyrwyddo ac roedd y plant yn cael eu canmol am eu hymddygiad, gan olygu bod y plant yn gwybod beth oedd yn ddisgwyliedig ohonynt. Gofynnodd aelod o'r staff i blentyn a oedd wedi golchi'i ddwylo cyn cael byrbryd, a phan wnaeth y plentyn ddangos ei ddwylo'n falch, dywedwyd wrtho "*well done they are nice and shiny"*. Drwy drafod a negodi, roedd y staff yn annog y plant hŷn i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain. Er enghraifft, drwy annog y plant i ymddiheuro os oeddent wedi gwneud rhywbeth a oedd wedi gwneud i rywun arall deimlo'n drist. Roedd y staff yn esbonio'n glir ac yn ei gwneud yn bosibl i bawb symud ymlaen yn gadarnhaol.

Mae'r staff yn rheoli ymddygiad yn llwyddiannus; gan fod yn ystyriol o oedran y plentyn a'i gam datblygu.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn cynnig amgylchedd magwrus a gofalgar ac yn diwallu anghenion unigol.

Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau yn wythnosol, ond weithiau maent yn ei chael hi'n anodd cwblhau'r tasgau paratoi ar gyfer yr wythnos ganlynol. Gwelsom nad oedd y gwaith cynllunio ar gyfer yr wythnos i ddod wedi'i gwblhau am ei bod yn fore prysur a bod y staff yn brysur yn gwneud tasgau eraill. Gwelsom dystiolaeth o waith cynllunio blaenorol ac roedd yn amlwg bod y staff yn annog chwilfrydedd y plant ac yn cynllunio amrywiaeth o bynciau a oedd yn cwmpasu amrywiaeth eang o brofiadau. Roedd y staff yn hyderus ac yn gyfforddus wrth ddarparu'r drefn ddyddiol a oedd yn diwallu anghenion y plant ac yn rhoi sefydlogrwydd ac ymdeimlad o sicrwydd iddynt. Mae'r staff yn cadw cofnod o gynnydd y plant ac yn rhoi tystiolaeth o hyn yn y llyfrau arsylwi a gaiff eu rhannu â'r rheini. Nid oedd y system gweithwyr allweddol ar waith yn llawn ar hyn o bryd, oherwydd newidiadau staffio a newid o ran y plant a oedd yn mynychu, gan ei bod yn ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Ar y cyfan, roedd y staff yn cadw'r plant yn brysur ac wedi'u difyrru ac yn hyrwyddo'u chwarae a'u dysgu mewn ffordd gadarnhaol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd glân a chroesawgar.  Caiff unrhyw risgiau diangen i ddiogelwch y plant eu nodi a'u rheoli'n dda drwy gynnal asesiadau risg.  Mae'r adnoddau sydd ar gael yn briodol ac yn addas ar gyfer anghenion y plant.

### Ein canfyddiadau

#### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân.

Roedd yr asesiadau risg wedi'u diweddaru ac roedd y gwiriadau diogelwch dyddiol wedi'u cwblhau. Roedd cyfyngwyr ffenestri wedi'u gosod ar y ffenestri i fyny'r grisiau, ac roedd giatiau diogelwch wedi'u rhoi mewn mannau priodol yn yr adeilad.  Roedd ymarferion tân wedi'u cynnal.  Roedd y drysau wedi'u cloi, ac yn cael eu hangor gan y staff yn unig, ac roedd camerâu teledu cylch cyfyng yn monitro pwy oedd yn mynd i mewn i'r adeilad. Cadwyd cofnod o ymwelwyr a chofrestr o'r staff a'r plant a oedd yn bresennol. Mae'r arweinwyr yn trafod y newidiadau sydd eu hangen gyda'r staff er mwyn gwneud yn siŵr bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser, er enghraifft, cyflwynwyd asesiadau risg penodol i'r staff eu cwblhau pan fyddant yn mynd â phlant ar deithiau, a newidiadau i'r gweithdrefnau ar gyfer casglu'r plant o ysgolion.

Mae'r broses rheoli risg yn effeithiol ac mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

#### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y safle yn gyfforddus ac yn groesawgar.

Roedd yr ystafelloedd a ddefnyddiwyd yn gyfforddus ac yn olau, gyda digon o le i'r plant chwarae. Roedd gwaith celf lliwgar y plant ar y waliau, gan ddathlu eu cyflawniadau a rhoi ymdeimlad o falchder yn eu cyflawniadau iddynt.  Roedd yr ystafelloedd chwarae yn adlewyrchu oedrannau'r plant a oedd yn eu defnyddio.  Er enghraifft, roedd gemau cyfrifiadurol ar gael i'r plant hŷn, ynghyd â soffa fawr a phêl-droed bwrdd. Roedd tŷ haf mawr ar gael i'r plant pan fyddent yn chwarae yn yr awyr agored, lle gallent fwynhau gweithgareddau crefft ac ymlacio yn yr ardal gysgodol.

Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion y plant yn effeithiol.

#### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r adnoddau o ansawdd priodol ac yn adlewyrchu oedrannau'r plant.

Gwelwyd bod y teganau a'r cyfarpar o ansawdd da ac yn addas at oedrannau'r plant. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod mynediad da at gyfarpar cysgu, cadeiriau cyfforddus a

byrddau a chadeiriau isel i'r plant. Roedd ganddynt glustogau cyfforddus i eistedd arnynt yn ystod amser cylch. Mae'r arweinwyr yn gwybod sut i gadw'r adnoddau a'r amgylchedd yn lân yn unol ag egwyddorion rheoli heintiau. Cyflogir glanhawr sy'n dod bob nos, ac mae'r staff yn rhannu'r tasgau glanhau o ddydd i ddydd er mwyn gwneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn aros yn addas ar gyfer y plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da ar gael, er mwyn sicrhau bod y plant yn cael digon o ddewis.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn gydwybodol, yn drylwyr ac yn ymdrechu i gefnogi'r staff i roi gofal o safon i'r plant. Caiff y gwasanaeth ei werthuso ac mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r gofal y mae eu plant yn ei dderbyn.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn rhagweithiol ac yn gweithredu yn ôl yr angen.

Roedd yr arweinwyr wedi gweithredu ar y rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad diwethaf, megis sicrhau bod y ddogfennaeth ofynnol i gyd ar gael yn ffeiliau'r staff. Mae'r arweinwyr yn cyfleu'r disgwyliadau uchel sydd ganddynt yn y cyfarfodydd staff rheolaidd, ac yn ymdrechu i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol i gyd a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn cynnal datganiad o ddiben cyfredol, ac yn rhoi newidiadau yn ôl yr angen. Er enghraifft, roedd angen diweddaru iaith y gwasanaeth, a gwnaed hyn yn brydlon ar ôl yr arolygiad er mwyn adlewyrchu'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar hyn o bryd yn gywir.

Mae'r arweinwyr yn gweithredu yn ôl yr angen ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, ac maent yn ei chyfleu i eraill yn effeithiol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn cynnal hunanwerthusiad o'r gwasanaeth ac yn adrodd ar y canfyddiadau.

Roedd yr arweinwyr wedi casglu a chyflwyno tystiolaeth fanwl ar y ffordd roedd y gwasanaeth wedi perfformio rhwng 2016 a 2017. Roedd sylwadau'r rhieni yn gadarnhaol a dywedodd y plant y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau mynychu. Roedd yr adroddiad yn fanwl ac yn adlewyrchu'r ffordd roedd yr arweinwyr yn bwriadu gweithredu i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i symud yn ei flaen, er enghraifft, cynlluniau yn dangos sut roeddent yn gobeithio diweddaru'r amgylchedd. Pwysleisiodd yr arweinwyr eu bod eisiau datblygu'r ardd gefn yn ystafell ddosbarth awyr agored a'u bod yn bwriadu prynu adnoddau ar gyfer hyfforddi'r staff. Roedd yr arweinwyr yn bwriadu gwella'r trefniadau storio a'i gwneud yn haws i'r plant gael gafael ar deganau, er enghraifft drwy silffoedd isel a fyddai'n rhoi mwy o ddewis rhydd i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn myfyrio'n gyson ar weithrediad y gwasanaeth ac yn gwneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr wedi gwella'r gefnogaeth a roddir i'r staff.

Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd i gyflawni eu rolau. Mae diogelu plant wrth wraidd y broses recriwtio, caiff gwiriadau ffitrwydd eu diweddaru ac mae'r arweinwyr yn gweithredu proses sefydlu effeithiol. Gwnaed defnydd effeithiol o'r staff, fe'u cefnogwyd i gymryd seibiannau ac i sicrhau bod y plant yn derbyn gofal parhaus. Mae'r arweinwyr yn cynnig goruchwyliaeth ac arfarniadau blynyddol a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi'u cefnogi yn eu gwaith. Drwy'r arfarniadau blynyddol, caiff y staff gyfle i adlewyrchu ar eu perfformiad a nodi eu hanghenion dysgu ar gyfer y dyfodol. Mae'r arfarniadau hefyd yn magu hyder y staff yn eu gallu, gan bennu targedau realistig. Sicrhaodd yr arweinwyr fod y staff yn barod ar gyfer yr arolygiad ac roedd y rhan fwyaf o'r ddogfennaeth ar gael ar gais.

Mae'r arweinwyr yn amlwg ac yn rheoli eu staff mewn ffordd gefnogol ac anogol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr wedi sefydlu partneriaethau effeithiol ac yn gweithio'n dda gyda'r rhieni.

Mae'r rheini yn cael gwybod am yr hyn y mae eu plant yn ei wneud tra byddant yn y feithrinfa. Roedd digonedd o dystiolaeth ffotograffig yn dangos y plant yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau. Roedd y rhain wedi'u harddangos ar y waliau i'r rhieni eu gweld ac roeddent hefyd yn cael eu hanfon gartref yn llyfrau arsylwi'r plant. Roedd hysbysfwrdd llawn gwybodaeth ger y brif fynedfa. Roedd y wybodaeth yn cael ei diweddaru'n rheolaidd ac yn rhoi gwybod i'r rhieni am bob agwedd ar waith y gwasanaeth. Mae'r arweinwyr yn ymateb i adborth ac awgrymiadau gan y rhieni, ac maent wedi sefydlu ymddiriedolaeth a phrosesau cyfathrebu clir. Cynigir rhai lleoedd wedi'u hariannu gan gynllun 'Dechrau'n Deg' Llywodraeth Cymru, sy'n dangos bod ganddynt gysylltiadau cadarnhaol ag asiantaethau partner er mwyn hyrwyddo canlyniadau da i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn gweithio gyda'r rhieni ac asiantaethau partner yn llwyddiannus er mwyn darparu gofal effeithiol i'r plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom hysbysu'r unigolyn cyfrifol nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010;

Rheoliad 24; roedd y cofnodion meddygol a welwyd yn anghyflawn. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol hyrwyddo a diogelu iechyd y plant perthnasol a sicrhau bod y ddogfennaeth ofynnol wedi'i chwblhau'n llawn er mwyn hyrwyddo diogelwch a lles y plant bob amser.

Dylai'r arweinwyr ystyried y canlynol:

- storio adnoddau ar lefel sy'n addas i'r plant, er mwyn iddynt allu cael gafael ar deganau'n annibynnol;
- annog a chaniatáu mwy o gyfleoedd i'r plant gwblhau tasgau ar eu pen eu hunain;
- cyfyngu ar y diodydd llawn siwgr y mae'r plant yn eu hyfed;
- cefnogi'r staff i sicrhau bod amser ganddynt i gwblhau'r gwaith o gynllunio gweithgareddau mewn modd amserol, er mwyn iddo fod yn barod ar gyfer yr wythnos i ddod.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 6 Awst 2018, rhwng 09.10 a 16.15.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar ymarfer a chwblhau arsylwadau;
- siarad â'r staff a'r plant;
- archwilio'r safle;
- siarad â'r unigolyn cyfrifol dros y ffôn, a
- rhoi adborth manwl i'r unigolyn cyfrifol.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 4. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Samantha Williams** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **64** |
| **Ystod oedran y plant** | **Babanod i blant 12 oed** |
| **Oriau agor** | **07.00 – 18.00**<br>**O ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **9 Awst 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **06 Awst 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd nid oes galw am wasanaeth Cymraeg. Argymhellwn y dylai'r arweinwyr ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

.